

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 27 Chwefror 2024 am 7:00 yr hwyr.

Presennol

David Andrew Parry (C) Hywel James Sinclair Evans, Gwenllian Davenport Hughes, Greta Hughes, William Roger Jones, Ian Goronwy Williams, Alan Harper-Smith, Kevin Wheatley, Keith Williams, Ann Llwyd (Cyfieithydd), Carys Jones (Clerc)

Croesawyd William Roger Jones i'r cyfarfod. Braff ei weld yn ôl.

Croesawyd Keith Williams hefyd i'r cyfarfod. Aelod newydd o Gyngor Cymuned Llanbedrog.

1. Ymddiheuriadau

John Brinley Jones

Thomas Victor Jones

2. Datgan Buddiant

Dim

3. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 30 Ionawr 2024

Nododd Hywel James Sinclair Evans y byddai'n hoffi iddo gael ei nodi yn y cofnodion pam ei fod wedi atal ei bleidlais parthed cais cynllunio Lôn Pin Solar yn y cyfarfod diwethaf. Teimlai y byddai cynllun o'r fath yn gyfle i'r gymuned gael trydan yn rhatach, felly dyna pam ei fod wedi atal ei bleidlais.

Cynnig: Gwenllian Davenport Hughes

Eilydd: Ian Goronwy Williams

Holodd y Clerc os y byddai Greta Hughes yn fodlon i'w nodiadau gael eu cynnwys hefo cofnodion fis Ionawr. Cadarnhaodd Greta Hughes nad oedd ganddi unrhyw wrthwynebiad. Awgrymwyd y dylai hi fynychu'r cyfarfod cynllunio ar ran y Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd Greta Hughes ei bod yn fodlon gwneud hynny.

Cynnig fod Greta Hughes yn mynychu'r cyfarfod: Ian Goronwy Williams

Eilydd: Alan Harper-Smith

4. Unrhyw Fater Brys

Parcio Anghyfreithlon – Y Gali, Llanbedrog

Nododd Alan Harper-Smith fod yr arwydd ar gopa'r ffordd wedi diflanu. Mae Cyngor

Gwynedd wedi cytuno i roi arwydd arall yn ei le i rybuddio pobl rhag parcio ger Y Gali.

Nododd ymhellach ei fod wedi gofyn i Gyngor Gwynedd sgubo'r lôn fel ei bod hi'n haws

gweld y llinellau melyn dwbl. Gobeithio y bydd hyn yn datrys y broblem. Holodd Gwenllian

Davenport Hughes os y byddai'n bosib rhoi arwydd dros dro yno? Dywedodd Alan Harper-Smith fyddai'n bosib gwneud hynny oherwydd na fyddai'n arwydd swyddogol.

Bin Brown – Y Fynwent

Nododd y Clerc fod angen diweddarau sticer ar gyfer bin brown y fynwent ac fod angen cael rhywun i fynd â'r bin ger y giat pob pythefnos i gael ei wagio gan y cyngor (nos Fercher a bore lau). Awgrymodd Ian Goronwy Williams efallai y byddai gan Mr Roger Fisher ddiddordeb? Cytunodd y Clerc i holi.

Toiledau Cyhoeddus

Dywedodd Alan Harper-Smith ar hyn o bryd fod y toledau cyhoeddus ar agor chwe mis y flwyddyn ac fod nifer o bobl wedi bod yn cwyno ei fod ar gau yn ddiweddar. Mae Cyngor Cymuned Llanbedrog yn talu £2,000 ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn talu £1,000. Awgrymodd Alan Harper-Smith fod y Cyngor Cymuned yn cysylltu hefo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i holi os allent gyfranu ychydig mwy at yr achos. Eiliodd David Andrew Parry a nodi pe bai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnig £500, efallai y gallai'r Cyngor Cymuned gyfranu'r £500 arall. Cytunodd y Clerc i gysylltu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar ran y Cyngor Cymuned. Cytunwyd yn unfrydol.

5. Anaf Personol – diweddariad

Adroddodd y Clerc fod John Brinley Jones wedi ymateb i gais cyfriethiwr y cwmni ysiwrans am wybodaeth pellach cyn iddo fynd i ffwrdd.

6. Hyfforddiant

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â Unllais Cymru i holi am gyrsiau am gyllid/ awdit. Nid oes hyfforddiant penodol am hyn i glercod ond nodwyd y byddai Unllais Cymru yn cysylltu os oes hyfforddiant am hyn ar gael yn y dyfodol.

Mae Clerc am gael cymorth gan y cwmni sydd yn gyfrifol am wefan y Cyngor Cymuned i ddangos sut i bostio cofnodion ar agenda ar y wefan.

7. Tendrau

Cafwyd trafodaeth am y tendrau a chymharwyd prisau y rhai sydd wedi cyflwyno tendrau. Nododd Greta Hughes fod aelodau wedi gorfod mynd ar ôl OP nifer o weithiau y flwyddyn diwethaf. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans fod nifer y toriadau wedi eu nodi i ofyn am o leiaf saith toriad y flwyddyn ac fod ymgais i fod yn fwy penodol yn y tendr newydd. Dywedodd Greta Hughes mai y llwybrau sydd yn ei phoeni hi fwyaf oherwydd fod aelodau'r Cyngor Cymuned wedi derbyn nifer o gwynion am gyflwr y llwybrau yn ystod y flwyddyn diwethaf. Nododd Alan Harper-Smith fod RJ yn weithiwr da a dibynadwy, yn ddyn lleol ac fod ganddo'r holl gyfarpar sydd ei angen ar gyfer gwneud y gwaith. Amgrymodd Kevin Wheatley fod y Cyngor Cymuned yn peidio talu os nad yw'r gwaith yn cael ei wneud. Awgrymodd David Andrew Parry fod y tendr yn cael ei gynnis i rywun lleol yn hytrach na Chyngor Gwynedd a fod y gwaith yn cael ei fonitro fel bo'r angen. Cytunodd Ian Goronwy Williams a chynnig fod y Cyngor Cymuned yn derbyn cynnis John Brinley Jones. Cytunwyd yn unfrydol.

Cae Chwarae a Cae Llan i RJ
Fynwent a Llwybrau i OP.

8. Llwybrau

Gweler eitem 7.

Ymhellach, adroddodd Ian Goronwy Williams ei fod wedi gyrru map i Iago Tudor ac fod Iwan Hughes wedi cynnig helpu hefyd i gerdded y llwybrau.

9. Y Fynwent

Y Fynwent Newydd

Dim diweddariad ers cofnodion y cyfarfod diwethaf.

10. Cae Chwarae

Adroddodd Hywel James Sinclair Evans ei fod yn gyffrous iawn hefo cynlluniau ar gyfer y Cae Chwarae fydd yn cynnwys y canlynol:

- cae pêl droed (foot cell)
- perllan
- ardal boldau gwyllt
- ardal natur –i gael ei ddefnyddio fel dosbarth allanol
- parc sglefrio a
- sied fechan gyda phaneli solar arni
- tractor

Nododd y bydd angen adnewyddu'r ffens i wneud yr ardal yn ddiogel a gosod pyst pêl droed a phêl faseded. Ancangyfrif o gost yr offer chwarae yw £100,000. Nododd hefyd fod Alaw Ceris wedi bod yn casglu gwybodaeth, cysylltu hefo cwmnïau lleol ac wedi trefnu noson gremnogau lwyddianus ac fod £9,800 wedi cael ei gasglu hyd yn hyn. Gofynnodd am gyfraniad o 25% tuag at gost y cynllun rhwng £9,000 - £10,000. Holodd Greta Hughes os y byddai'n bosib i'r Cyngor Cymuned gynnig "payment in kind"? Adroddodd Hywel James Sinclair Evans Hywel James Sinclair Evans fod cais ar fin cael ei gwblhau erbyn 12fed o Fawrth gan AHNE ac fod yn rhaid cael elfen o natur yn rhan o'r cais. Y gobaith yw cael ardal natur yn y topiau a lle diogel i blant fydd yn cynnwys cysgodfa a meinciau picnic. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi cynllun y cael chwarae mewn egwyddor ac i anfon llythyr at Alaw Ceris i gadarnhau hynny.

11. Neuadd y Pentref

Nododd Gwenllian Davenport Hughes nad oedd ddim pellach ymlaen o ran derbyn amcan bris. Nododd ymhellach ei bod wedi bod yn gwneud ymholiadau am grantiau ar gyfer talu am y gwaith yn cynnwys Cronfa'r Loteri Genedlaethol a Community Funder.

Adroddodd David Andrew Parry ei fod wedi holi Barbara am y nifer o blant sydd yn mynychu'r Ysgol Feithrin gyda'r bwriad o godi'r pris. Yn ôl Steven John mae angen gwaith ar doiledau'r merched i roi toiledau newydd yn y Neuadd. Amcangyfrif ar gyfer y gwaith yma yw: £20,500 + TAW

Ceisiadau Cynllunio:

C24/0120/39/RA Glyn y Môr, Glyn y Weddw, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7TT.
Rhyddhau amodau 3 a 4 (cyflwyno manylion deunyddiau) ar gais ganiatad cynllunio
C23/0736/38/DT.

Eglurodd Ian Goronwy Williams mai cais oedd hwn i dynnu amodau i ffwrdd parthed y deunyddiau sydd i gael eu defnyddio.

Cynnigiodd David Andrew Parry nad oedd dim gwrthwynebiad.
Dyweddodd Hywel James Sinclair Evans fod yr amodau gwreiddiol yn gofyn am ddefnyddio llechi Cymreig yn hytrach na rhai Sbaeneg ee, felly yn ei farn e feu bod wedi derbyn dyletswydd, amodau penodol. Cytunodd William Roger Jones gan ddweud os oedd Cyngor Gwynedd wedi rhoi amodau penodol, eu bod wedi gwneud hynny am reswm. Ychwanegodd Greta Hughes fod pobl eraill wedi gorfod ymrwmo i ddilyn amodau felly awgrymodd fod y cais i ryddhau amodau 3 a 4 yn cael ei wrthod, ar sail bod yr amodau hynny'n rhesymol.
Cynnig: William Roger Jones
Eilio: Hywel James Sinclair Evans.
Cytunwyd yn unfrydol

C24/0087/38/LL Tir Henllys Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7RE.
Cais llawn i adeiladu tŷ fforddadwy 3 ystafell wely gyda modyrdy ynghlwm yngyd â gwaith cysylltiol gan gynnwys creu mynedfa a ffordd fynediad.

Eglurodd Ian Goronwy Williams ei fod yn bryderus am leoliad y fynedfa. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans mai cwpwl lleol sydd berchen y tir ac ar sail hynny ar ffaith fod y cynllun yn ymwneud ag adeiladu tŷ fforddadwy, nad oedd ganddo ef unrhyw wrthwynebiad. Ychwanegodd Greta Hughes y byddai hyn o help I bobl ifanc allu aros yn eu cymuned leol. Nododd hefyd nad oedd y cynllun yn debygol o amharu ar neb arall ac y dylai Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd allu sortio'r fynedfa. O ganlyniad, roedd hi'n argymhell derbyn y cynllun. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod o o blaid cefnogi pobl ifanc lleol I adeiladu eiddo i'w hunain.
Eilio: William Roger Jones

Adroddodd y Clerc fod cais cynllunio arall wedi dod i law sef, Cae Coed, Llanbedrog. Cadarnhawyd leoliad y cais, dros y ffordd â Tanrallt.
Nodwyd fod cais gwreiddiol wedi ei gyflwyno yn 2020. Caniatwyd y cais hwnnw gyda;g amodau. Dywedodd Greta Hughes nad oes y cais yn debygol o amharu ar neb arall gan fod y cloddiau yn eithaf uchel. Holodd hefyd tybed oedd yr arolwg gwreiddiol bellach wedi dod i ben? Nododd fod rhaid cychwyn y gwaith o fewn pum mlynedd.
Cynnig dim gwrthwynebiad: Ian Goronwy Williams
Eilio: Greta Hughes
Pleidleisiwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais.

Unrhyw Fater Arall

Dim

Taliadau i'w cymeradwyo:

- (1) **Cyflog y Clerc** - £416
- (2) **Ann Llwyd** (Cyfieithydd) - £70
- (3) **Arfon Williams** (Cradur.com) - £43.00

Cytunwyd yn unfrydol o wneud y taliadau uchod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26/03/24 am 7 yr hwyr.